Eitem Agenda 3 **26 Mawrth 2010** **F2. WNC 08.10**

ADRODDIAD CYLLID HYD 28 CHWEFROR 2010

Pwrpas

1. Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Cenedlaethol am faterion ariannol a pherthynol sy'n wynebu Comisiwn Coedwigaeth Cymru ar hyn o bryd.

BA08/09

2. Mae archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o gyfrifon ailddatganedig yn ôl y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn parhau wrth ddal i ganolbwyntio ar y Dadansoddiad Portffolio gwaelodol. Ar ôl cyfarfod â Swyddfa Archwilio Cymru i drafod materion a oedd yn codi, rydym nawr yn ymateb i'w hymholiadau, a'r bwriad yw cwblhau hyn erbyn y Pasg.

BA09/10

3. Mae'r gwir sefyllfa'n dyddio i fis Chwefror 2010.

Tabl 1 **£000**	Cyllideb Flynyddol	Chwefror: Proffil Cyllideb	Chwefror: Gwir	Amrywiant i'r Proffil	Cynnyrch a Ragwelir
Adrannol					
Costau Gweinyddol	5,333	4,900	4,704	196 (F)	5,164
Costau Rhaglenni	5,045	3,800	3,071	729 (F)	5,162
Incwm Rhaglenni	(886)	(810)	(808)	(2) (A)	(990)
Adrannol Net	**9,492**	**7,890**	**6,967**	**923 (F)**	**9,336**
Coetiroedd y Cynulliad					
Gwariant Gweithredol	20,812	19,400	19,025	375 (F)	21,347
Incwm Gweithredol	(12,765)	(12,810)	(13,521)	711 (F)	(13,965)
Coetiroedd y Cynulliad Net	**8,047**	**6,590**	**5,504**	**1,086(F)**	**7,382**
Cymdeithasol ac Amgylcheddol					
Gwariant Cymdeithasol ac Amgylcheddol	8,246	7,800	7,453	347 (F)	8,505
Incwm Cymdeithasol ac Amgylcheddol	(1,017)	(950)	(947)	(3) (A)	(1,017)
Cymdeithasol ac Amgylcheddol Net	**7,229**	**6,850**	**6,506**	**344 (F)**	**7,488**
Cyfanswm	**24,768**	**21,330**	**18,977**	**2,353 (F)**	**24,206**
Cymwysiadau o Adnoddau Llawn i Ofyniad Arian Net **	**(2,446)**	**(1,430)**	**(241)**	**-1,189**	**-4,167**
Gofyniad Arian Net	**22,322**	**19,900**	**18,736**	**-1,164**	**20,039**
Ariannu Llinell Sylfaen Llywodraeth y Cynulliad	**22,533**	**19,900**	**19,636**	**-264**	**22,533**
(Gwarged) / Diffyg – Gofyniad Arian	**(211)**	**(900)**	**(900)**	**-**	**-2,494**

(A) yn dynodi amrywiant anffafriol
(F) yn dynodi amrywiant ffafriol
** yn dynodi gweithgaredd ar y Fantolen: Incwm a Gwariant Cyfalaf a symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn a'r Cyfalaf Gweithredol

4. **Crynodeb o'r Sefyllfa:** rydym yn dal i reoli'r defnydd o'r Gronfa Ariannu Hyblyg, a rheolir Llif Arian yn wythnosol wrth ddefnyddio'r dulliau arferol i gael canlyniad llwyddiannus i'n cynnyrch a ragwelwyd.

Adrannol

5. Mae'r costau Rhaglenni'n dal i adlewyrchu galw arafach na'r disgwyl am daliadau Coetiroedd Gwell i Gymru a'r Cynllun Grantiau Coetir (-£0.5m) a thaliadau Grant o dan Gymal 2 Cynllun Busnes Ynni Pren yr UE (-£0.2m).

Ystad Goetir Llywodraeth y Cynulliad

6. Mae'r Incwm Gweithredol fel y'i hadroddwyd i'r Pwyllgor ym mis Chwefror yn dal i adlewyrchu'r galw uwch na'r disgwyl am Bren/Biomàs. Mae'r Gwariant Gweithredol yn adlewyrchu arbedion a wnaed oherwydd effaith y tywydd gwael yn gynharach yn y flwyddyn. Bydd hyn yn arwain ar wariant ychwanegol yn 2010/11, a fydd yn cael ei dalu o'r Gronfa Ariannu Hyblyg.

Cymdeithasol ac Amgylcheddol

7. Nid oes unrhyw newid i'r rhagolwg Incwm blaenorol. Mae'r rhagolwg gwariant yn rhagweld ymchwydd hwyr o ran taliadau ym mis olaf y flwyddyn. Nid yw'n sefyllfa foddhaol iawn a bydd camau'n cael eu cymryd i wella proffilio gwariant er mwyn gwneud yn siŵr nad oes ymchwydd hwyr mewn gwariant yn y dyfodol.

Materion Perthynol Eraill

8. **Cynllunio Busnes** – Yn ystod y chwarter diwethaf buom yn cwblhau ein Cynlluniau Busnes yn unol â'r setliad cyllido a gytunwyd ar gyfer BA10/11. Mae hyn wedi rhoi Cyllideb a gafodd ei chymeradwyo gan Fwrdd Rheoli Comisiwn Coedwigaeth Cymru, ac yn fras mae'n adlewyrchu'r canlynol:-

£000	BA09/10 Rhagolwg	BA09/11: Cyllideb	BA09/12: Cyllideb	BA09/13: Cyllideb
Gwariant Uniongyrchol	36,226	36,852	37,724	37,310
Taliadau Cytundeb Lefel Gwasanaeth	4,135	4,112	3,872	3,880
Is-gyfanswm Gwariant	**40,361**	**40,964**	**41,596**	**41,190**
Cyfanswm Incwm	(19,317)	(18,405)	(19,578)	(19,435)
Diffyg Comisiwn Coedwigaeth Cymru	21,044	22,559	22,018	21,755

Ariannu Llinell Sylfaen	(22,533)	(22,082)	(21,641)	(21,208)
Cronfeydd Cyllido Hyblyg (d/y)	(1,005)	(2,494)	(2,017)	(1,640)
Diffyg / (Gwarged)	**(2,494)**	**(2,017)**	**(1,640)**	**(1,093)**

9. Er mwyn cyrraedd y gwarged a ragwelwyd ar gyfer pob blwyddyn, bu'n rhaid i Fwrdd Rheoli Comisiwn Coedwigaeth Cymru reoli rhaglenni a gyflwynwyd i ddechrau gyda golwg ar oddeutu £1.5m yn llai o gyllid ar draws y cyfnod Cynllunio Busnes. Fel canlyniad, defnyddiwyd ein Cronfa Ariannu Hyblyg i liniaru'r gostyngiad, a gall amharu ar ein gallu i wneud newidiadau strategol i'n model busnes.

10. Fodd bynnag, mae'r cynllun yn caniatáu Comisiwn Coedwigaeth Cymru i:-

- diwallu lefelau Cynllun Staffio, talu Codiadau Cyflog blynyddol;
- cynnal y Rhaglenni Teneuo a dal i symud ymlaen â'r Rhaglen Categori B;
- cael hyd i Gyfalaf i'w fuddsoddi mewn systemau ynni cynaliadwy yn ein swyddfeydd;
- darparu ar gyfer prosiect Cyfalaf Hamdden;
- dal i fuddsoddi mewn Ffyrdd Newydd, Cynnal a Chadw a Chyfleusterau Cynaeafu;
- Buddsoddi i ddiogelu safleoedd cynaeafu yn Ne Cymru;
- lleihau costau cefn swyddfa yn y Swyddfa Genedlaethol a Chydwasanaethau;
- arbed arian ar Reoli Coedwigoedd trwy wella prosesau caffael;
- cael gwared ar asedau nad oes eu hangen fel canlyniad i'r Adolygiad o Asedau Adeiladau;
- Cynnal y gwario ar Grantiau a Rheoliadau yn unol â galw Coetiroedd Gwell i Gymru;
- cadw cyllideb y cerbydau fflyd ar lefelau BA09/10.

11. Dangosir y Cynllun Busnes ar gyfer BA10/11 yn Atodiad 1 fel y mae'n berthynol i bob un o'r Rhaglenni Corfforaethol.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon BA09/10

12. Rydym wedi defnyddio gwasanaeth Price Waterhouse Coopers i ddarparu Cyfrifydd Cymwysedig i helpu i gwblhau Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon BA09/ 10 a fydd yn cael eu paratoi am y tro cyntaf yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Byddwn yn rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor ynglŷn â chynnydd wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Dadansoddiad Risg

13. **BA09/10:** mae'r risg o fynd dros ein Cyllideb yn dal i fod yn **Isel.**

14. **BA10/11 a'r tu hwnt:** mae Llinell Sylfaen BA10/11 yn dal i fod yn £0.5m yn is na BA09/10 ac mae yna risg **Uchel** o leihad o hyd ar gyfer y dyfodol.

Goblygiadau Adnoddau

15. Fel arfer nid oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau'n codi o'r papur fel y cyfryw. Mae'n gweithredu fel arweiniad i sut mae'r adnoddau presennol yn cael eu rheoli.

Cyfathrebu

16. Mae sefyllfa ariannol Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cael ei chyflwyno trwy gyfrwng y papur hwn, sy'n cael ei olygu ar gyfer unrhyw gynnwys masnachol-sensitif, ar y Rhyngrwyd. Yn y cyfamser, fe'i trosglwyddir i Reolwyr Unedau trwy gyfrwng Cyfarfodydd Fforwm Rheolwyr, a Chyfarfodydd Grŵp Rheoli'r Ystâd. Hefyd, anfonir copïau o'r Adroddiadau Cyllid at Uned Fusnes Adran Materion Gwledig Llywodraeth y Cynulliad, Cyfarwyddwr Cyllid Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr a'r Pennaeth Archwilio Mewnol.

Argymhelliad

17. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r sefyllfa bresennol ac yn cadarnhau'r Cynllun Busnes.

Martin Veale
Pennaeth Cyllid
22 Mawrth 2010